Hawdd ei ddeall

# Gwneud y Dreth Gyngor yn fwy teg

## Rydyn ni am wybod beth rydych chi'n feddwl




Cafodd y ddogfen hon ei hysgrifennu gan **Llywodraeth Cymru**.
Mae'n fersiwn hawdd ei ddeall o '**Treth Gyngor Decach**'.

**Gorffennaf 2022**

# Sut i ddefnyddio'r ddogfen hon

Dogfen hawdd ei deall yw hon. Ond efallai bydd angen cymorth arnoch chi i'w darllen. Gofynnwch i rywun rydych chi'n ei adnabod i'ch helpu chi.



Efallai bydd hi'n anodd deall geiriau mewn ysgrifen las drwm. Gallwch chi siecio beth mae'r geiriau mewn glas yn ei olygu ar dudalen 26.

Pan fydd y ddogfen yn dweud ni, mae hyn yn golygu Llywodraeth Cymru. I gael mwy o wybodaeth, dyma sut i gysylltu â ni:

E-bost: LGFR.ymgyngoriadau@llyw.cymru

Cafodd y ddogfen hon ei throi'n fersiwn hawdd ei ddeall gan **Hawdd ei Ddeall Cymru** gan ddefnyddio **Photosymbols**. I ddweud wrthon ni beth rydych chi'n feddwl am y fersiwn hawdd ei ddeall hwn, cliciwch yma.

# Cynnwys

**Tudalen**


Sut i ddefnyddio'r ddogfen hon....2

Cyflwyniad....4

Beth mae'r dreth gyngor yn talu amdano?....6

Pam rydyn ni am wneud newidiadau....8

Beth ydyn ni am ei newid?....10

Pryd rydyn ni am wneud newidiadau....11

Newid bandiau'r dreth gyngor....12

Newidiadau i dai....15

Apeliadau....16

Gostyngiadau a rheolau eraill ar gyfer talu llai o'r dreth gyngor....18

Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor....21

Gwneud newidiadau pan fydd angen i ni wneud hynny....24

Geiriau anodd....26

# Cyflwyniad




Rydyn ni am wneud i'r dreth gyngor yn fwy teg.



Rydyn ni am gael gwybod beth rydych chi'n feddwl am ein syniadau ar gyfer gwneud hyn.




Rydyn ni'n mynd i ofyn rhai cwestiynau am hyn. Mae hyn yn cael ei alw'n **Gam 1**.




Hoffen ni wybod beth rydych chi'n feddwl erbyn dydd **Llun 4 Hydref 2022.**




Byddwn ni'n gofyn mwy o gwestiynau yn y dyfodol. Bydd hyn yn cael ei alw'n **Gam 2**.

**Dyma beth rydyn ni ei eisiau:**



- i’r dreth gyngor fod yn fwy teg



- gwneud diweddariadau’n fwy aml i gadw y dreth gyngor yn deg




- defnyddio’r dreth gyngor i dalu am wasanaethau rydyn ni i gyd eu hangen.



- i’r dreth gyngor helpu pobl i deimlo’n rhan o’u cymunedau.

# Beth mae'r dreth gyngor yn talu amdano?




**Mae'r dreth gyngor yn helpu i dalu am:**

- Ysgolion



- Gofal cymdeithasol



- Trafnidiaeth a ffyrdd



- Tai




- Y gwasanaethau tân ac achub



- Yr heddlu



- Llawer o wasanaethau eraill



Mae hanner yr holl aelwydydd yng Nghymru yn cael rhywfaint o gymorth i dalu am eu treth gyngor.


# Pam rydyn ni am wneud newidiadau



Ar hyn o bryd, dydyn ni ddim yn meddwl bod y symiau mae rhai pobl yn eu talu yn deg.



Er enghraifft, mae'r bobl gyda'r swm lleiaf o arian yn talu mwy na'u cyfran deg o'r dreth gyngor.



Rydyn ni'n meddwl gallen ni ei gwneud hi'n well ac yn fwy teg.

Ar hyn o bryd, rydyn ni'n gweithio allan faint o'r dreth gyngor mae rhaid i bobl ei dalu ar sail 3 pheth:




- Y tŷ maen nhw'n byw ynddo



- Pobl eraill sy'n byw gyda nhw



- Faint o arian sydd gyda nhw




Mae’r dreth gyngor yn cael ei rhannu yn grwpiau, sy’n cael eu galw’n **fandiau**.




Mae’r bandiau wedi’u seilio ar werth tŷ neu fflat a’r tir mae wedi cael ei adeiladu arno.



Mae cymorth i bobl sy’n byw ar eu pennau eu hunain. Ac i bobl heb lawer o arian.




Rydyn ni’n meddwl bod y cymorth hwn yn bwysig.

# Beth ydyn ni am ei newid?

**Rydyn ni'n gofyn cwestiynau nawr, o'r enw Cam 1, am eich syniadau ynghylch a ddylen ni:**




- Wirio prisiau tai eto i wneud yn siŵr bod y bandiau'n deg. Ar hyn o bryd, dydyn nhw ddim yn gyfoes.



- Newid bandiau'r deth gyngor a chreu rhai newydd.
- Gwirio prisiau tai yn rheolaidd i wneud yn siŵr bod biliau'r dreth gyngor yn aros yn deg yn y dyfodol.



- Gwneud y system dreth gyngor yn haws ei deall a'i dilyn.



- Gwella Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor. Mae hwn yn rhoi cymorth i aelwydydd heb lawer o arian.




- Gwneud yn siŵr bod hawliau pobl yn cael eu diogelu.

# Pryd rydyn ni am wneud newidiadau




Rydyn ni'n gobeithio gwneud y newidiadau i'r dreth gyngor ym mis **Ebrill 2025**.




Byddwn ni'n gofyn y set nesaf o gwestiynau, sy'n cael eu galw'n **Gam 2**, y flwyddyn nesaf.

# Newid bandiau'r dreth gyngor

## Prisiau tai




Mae'r wybodaeth mae'r dreth gyngor yn seiliedig arni bron 20 mlynedd ar ei hôl hi.

Mae'n seiliedig ar brisiau tai yn 2003.




Ond mae llawer wedi newid ers hynny.




Mae hyn yn golygu bod rhai pobl yn talu gormod. Ac efallai bod rhai pobl ddim yn talu digon.



Rydyn ni am wirio prisiau tai nawr, er mwyn i ni allu gweithio allan beth sy'n deg i ofyn i bobl ei dalu am y dreth gyngor.




Bydd ychwanegu mwy o fandiau'r dreth gyngor yn helpu i wneud pethau'n fwy teg hefyd.




Pan fyddwn ni'n gwneud y newidiadau, byddwn n'n meddwl am roi cymorth i bobl sy'n gorfod talu mwy, i ddechrau.


# Beth fydd hyn yn ei olygu i gynghorau?




Mae Llywodraeth Cymru'n rhoi arian i bob cyngor yng **Nghymru o'r Grant Cynnal Refeniw**.



Dyma arian mae cynghorau yn ei gael i'w helpu nhw i dalu am wasanaethau yn eu hardal.




Os ydyn ni'n newid bandiau'r dreth gyngor, efallai bydd yr arian mae cynghorau yn ei gael gan y **Grant Cynnal Refeniw** yn newid.




Byddwn ni'n edrych ar hyn yn fwy manwl yng **Ngham 2**.



Hoffen ni wybod beth rydych chi'n feddwl am ein syniadau ar gyfer newid bandiau'r dreth gyngor.

**Gallwch chi weld cwestiynau am yr adran hon ar dudalennau 2 i 6 ar y ffurflen ymateb.**

# Newidiadau i dai



Weithiau, mae pobl yn gwneud newidiadau mawr i'w cartref sy'n golygu ei fod yn werth llawer mwy.




Ar hyn o bryd, **dydy'r** band treth gyngor yn newid oni bai bod y tŷ yn cael ei werthu i rywun arall.




Hoffen ni wybod os ydych chi'n meddwl bod angen i'r band treth gyngor newid pan fydd gwaith yn cael ei wneud.

**I ddweud wrthon ni beth rydych chi'n feddwl, ewch i dudalen 7 ar y ffurflen ymateb ac ateb cwestiwn 6.**

# Apeliadau




Ar hyn o bryd, mae pobl sy'n talu'r dreth gyngor yn gallu **apelio** os nad ydyn nhw'n fodlon ar rywbeth.




Er enghraifft, os ydyn nhw'n meddwl nad ydyn nhw yn y band treth gyngor cywir.




Mae **apêl** yn ffordd ffurfiol o ofyn i rywbeth gael ei wirio a'i newid.




Os ydyn ni'n gwirio prisiau tai a bandiau'r dreth gyngor yn fwy aml, bydd angen i ni edrych ar sut y bydd yr **apeliadau** yn cael eu rheoli.




Bwriad hyn yw gwneud yn siŵr bod y system yn dal i weithio'n dda.



Hefyd, rydyn ni'n meddwl bod gallu **apelio** yn helpu i greu system deg.

# Gwybodaeth am y dreth gyngor



Rydyn ni am wella'r system dreth gyngor gyfan a'i gwneud hi'n gliriach i'w defnyddio.




Rydyn ni am wneud yn siŵr bod pobl yn gallu cael mwy o wybodaeth ar-lein.



Rydyn ni am weithio gyda sefydliadau eraill i rannu gwybodaeth bwysig. Er enghraifft, **Asiantaeth y Swyddfa Brisio**.

**Ewch i dudalen 9 ar y Ffurflen Ymateb ac ateb cwestiwn 8.**

# Gostyngiadau a rheolau eraill ar gyfer talu llai o'r dreth gyngor




Mae llawer o reolau ynghylch gostwng swm y dreth gyngor y mae angen i rai pobl ei dalu.



Er enghraifft, mae pobl sy'n byw ar eu pennau eu hunain a theuluoedd ag un rhiant yn aml yn talu llai.




Mae rheolau am beidio â chynnwys rhai pobl wrth dalu'r dreth gyngor. Er enghraifft:





- Myfyrwyr
- Pobl anabl
- Rhai gofalwyr
- Pobl mewn cartrefi gofal
- Plant o dan 18 oed.



Rydyn ni'n meddwl bod llawer o'r rheolau'n anodd eu deall. Ac yn anodd eu cymhwyso.



Hefyd, mae'n anodd i Lywodraeth Cymru wneud newidiadau i rai o'r deddfau sy'n gosod y rheolau hyn.





Hoffen ni gael deddfau newydd sy'n ei gwneud hi'n haws gwneud newidiadau i ostyngiadau'r dreth gyngor.



Gallai hyn ei gwneud hi'n rhwyddach yn y dyfodol pan fydd newidiadau yn yr **economi** neu i'r gymdeithas.

Yr **economi** yw faint o arian sydd gyda gwlad.




Byddai hefyd yn ei gwneud hi'n haws ychwanegu grwpiau newydd a allai gael gostyngiadau yn y dreth gyngor.



Rydyn ni am ei gwneud hi'n haws i bobl gael y cymorth cywir gyda'u treth gyngor.




Mae'n bosib y bydd cyfraddau treth gyngor gwahanol yn gallu cael eu pennu ar gyfer sefyllfaoedd gwahanol.




Bydden ni'n edrych ar y rhestr o bobl nad oes rhaid iddyn nhw dalu'r dreth gyngor a gwirio ei bod hi'n gyfoes.



Byddai hyn yn cynnwys gwirio'r geiriau rydyn ni'n eu defnyddio i ddisgrifio pobl. A gwneud yn siŵr eu bod nhw'n gyfoes.

**I ddweud wrthon ni beth rydych chi'n feddwl am y newidiadau rydyn ni am eu gwneud i ostyngiadau'r dreth gyngor, ewch i dudalen 10 ar y ffurflen ymateb ac ateb cwestiynau 9, 10,11 a 12.**

# Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor



Dyma gynllun sy'n helpu pobl heb lawer o arian.




Trwy **Gynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor**, mae pobl yn talu llai o'r dreth gyngor, gan ddibynnu ar eu sefyllfa.




Hoffen ni wybod beth sy'n bwysig i chi am gefnogi aelwydydd heb lawer o arian.



Mae tua 280 o filoedd o dai yn rhan o **Gynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor**.



Ond efallai bod mwy o aelwydydd a allai gael cymorth gan y cynllun hwn nad ydyn nhw'n gwneud hynny.




Rydyn ni am wneud yn siŵr bod pawr sy'n gallu cael y cymorth hwn yn ei gael e.



Rydyn ni am i'r cynllun gael ei redeg yn well, a gweithio'n well i bobl.




Mae llawer o bobl sy'n rhan o'r cynllun yn cael **Credyd Cynhwysol**. Dydy'r 2 system hon ddim yn gweithio'n dda iawn gyda'i gilydd ar hyn o bryd.




Mae llawer o opsiynau ar gyfer gwella **Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor**.




Ar hyn o bryd, rydyn ni'n defnyddio system o'r enw **prawf modd** i weld a ddylai pobl gael cymorth gyda'u treth gyngor.



Mae hyn yn edrych ar lawer o wybodaeth am aelwyd a'r arian sydd gyda nhw.



Mae'n gallu bod yn eithaf anodd rhedeg system **prawf modd**. Ond mae'n ein helpu i wneud yn siŵr bod y bobl sydd wir angen cymorth yn ei gael e.



Mae angen i ni edrych ar y ffyrdd gorau o redeg pethau yn y dyfodol, a meddwl am:



- Diogelu grwpiau o bobl sydd angen y cymorth mwyaf




- Gwneud yn siŵr bod pobl yn well eu byd mewn gwaith cyflogedig



- Sut mae darparwyr cyngor yn gallu helpu




- Ei gwneud hi'n haws rhedeg y system.

**Ewch i dudalennau 13 ar y ffurflen ymateb ac ateb cwestiynau 13, 14 a 15.**

# Gwneud newidiadau pan fydd angen i ni wneud hynny




Rydyn ni am allu gwneud newidiadau i'r dreth gyngor i gefnogi pobl yn well, pan fydd rhywbeth mawr yn digwydd. Er enghraifft, y coronafeirws a'r cynnydd mawr mewn costau byw.




Ar hyn o bryd, mae rhaid i gynghorau dweud beth yw eu cynllun ar gyfer helpu pobl gyda'r dreth gyngor ar gyfer y flwyddyn i ddod.




Mae rhaid iddyn nhw wneud hyn erbyn **31 Ionawr** bob blwyddyn. Dydyn nhw ddim yn gallu gwneud newidiadau mawr ar ôl hyn.



Rydyn ni am weld cynllun cenedlaethol sy'n cael ei bennu gan Weinidogion Cymru. Ac sy'n cael ei redeg gan  gynghorau lleol.




Bydd hyn yn rhoi'r pŵer i Lywodraeth Cymru wneud newidiadau pan fydd rhywbeth yn digwydd, ac mae angen mwy o gymorth ar bobl.




Ar hyn o bryd mae rhai meysydd cymorth y mae cynghorau yn gallu dewis eu rhoi neu beidio. Mae'r rhan fwyaf o gynghorau'n dewis cynnig y cymorth hwn yn yr un modd.



Rydyn ni'n meddwl y dylai'r meysydd hyn gael eu cynnwys yn y cynllun cenedlaethol i wneud pethau'n haws.




Mae deddf sy'n caniatáu i gynghorau roi cymorth i rai aelwydydd gyda'u treth gyngor. Mae hyn wedi helpu yn ystod coronafeirws a'r argyfwng mewn costau byw.




Dydyn ni ddim yn bwriadu newid hyn. Rydyn ni'n meddwl ei bod hi'n dda bod cynghorau'n gwneud hyn.

**Ewch i dudalennau 14 a 16 o'r ffurflen ymateb ac ateb cwestiynau 14 a 15**




Atebwch y cwestiynau am y Gymraeg ar dudalen 17 o'r ffurflen ymateb os gwelwch yn dda. Ac mae blwch ar gyfer unrhyw beth arall hoffech chi ei ychwanegu.

# Geiriau anodd

## Apêl, apelio

Mae **apêl** yn ffordd ffurfiol o ofyn i rywbeth gael ei wirio a'i newid.

## Economi

Yr **economi** yw faint o arian sydd gyda gwlad.